

# HEDDWCH

Oherwydd salwch, bu'n rhaid i oedi argraffu *Heddwch* (rhifyn 82, Rhagfyr 2022). Ymddiheurwn am hyn a gobeithiwn ei argraffu a'i ddsbarthu yn y ffordd arferol cyn gynted ag y bydd modd. Yn y cyfamser, rydym yn atgynhyrch'r cynnwys ar ffurf llythyr newyddion digidol. Ionawr 2023.



**Ry'n ni yma o hyd! Mae llywodraethau'n mynd a dod fel grawn unnos. Ond ry'n ni yma tan ben y daith.**

## **1 YN Y RHIFYN HWN ...**

Yn y rhifyn hwn, rhoddir sylw i COP 27 a gweithredu ar yr hinsawdd (t.12), a rhyfel Wcráin (t.3). Ystyriwn yr adolygiadau cytundebau niwclear diweddar (t.4) ac adroddir ar ddadl Cyngres yr Undebau Llafur ar swyddi ym maes cynhyrchu arfau ac 'amddiffyn' (tt.6-7) a dychweliad arfau niwclear i RAF Lakenheath (t.3).

Mae newyddion Cymru yn cynnwys cynhadledd niwclear Caernarfon ym mis Gorffennaf a'r cynigion niwclear diweddaraf ar gyfer Wylfa a Thrawsfynydd (t.8). Clywn hanes cymal olaf taith arddangosfa'r Gymru Ddi-niwclear yn 40 (t.5), yn ogystal â holl newyddion yr Eisteddfod a sut y buom yn gweithredu.

## 2 RHAGARWEINIAD

"Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi atgyfodi ysbrydion y Rhyfel Oer ac gwneud i bob un ohonom sylweddoli eto'r bygythiad oddi wrth arfau niwclear a damweiniau niwclear, ar adeg pan fo Rwsia ac UDA wrthi'n moderneiddio eu harfau dinistr torfol, a'r DU hithau'n arfaethu cynyddu ei harfogaeth niwclear, yn groes i'r Cytundeb Atal Ymlediad niwclear.

Mae arnom angen mudiadau cymdeithas sifil cryf yn y DU a gwledydd eraill i bwysu ar Lywodraeth y DU ac eraill i ymuno â'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, a dwi'n falch o'r arweiniad a roddir gan Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear, mudiad rwyf yn aelod ohono."

*Beth Winter AS Cwm Cynon (Llafur)*

### LLYWODRAETHAU CIBDDALL

Amlhau y mae problemau cyfredol y byd: argyfwng yr hinsawdd, costau byw yn codi i'r entychion, cors Wcráin, yr argyfwng ynni a thwf y bygythiad niwclear. Mae'r holl broblemau hyn ynghlwm â'i gilydd. Does nemor un o lywodraethau'r byd yn fodlon wynebu gwirioneddau caled, ac mae llywodraethau bythol-gyfnewidiol San Steffan, o'r dianghenraid o greulon i'r anobeithiol o annigonol, heb y gallu i weld y darlun mwy na darllen y print mân.

### YMDAITH FAITH

Roedd taith gerdded aelodau iau CND Cymru o Drawsffynydd i'r Wylfa ym mis Medi 2022, i brotestio yn erbyn Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bach, yn amserol ac yn ysbrydoliaeth: fe gysylltodd ein cefnogwyr ar draws cymunedau gogledd-orllewin Cymru, a herio polisïau'r ddau Gyngor Sir a rhaglen 'Dyfodol Niwclear' Prifysgol Bangor. Esgorodd ar benderfyniad newydd hefyd. *Am adroddiad Bethan Siân, gweler t.9.*



*Ffiw! Cerddwyr CND Cymru wedi cyrraedd safle'r Wylfa, Medi 2022*

*Ilun: Elfed Jones*

### 3 DWYSÁU BYGYTHIAD RHYFEL

#### NA I FOMIAU NIWCLEAR YR UD YN LAKENHEATH



*Gwynfor Roberts o Ynys Môn yn ymuno â phrotest y 19 Tachwedd yn Lakenheath  
Illun: Anne-Marie Le Gall*

Ar 19 Tachwedd, daeth ymgyrchwyr i RAF Lakenheath i brotestio yn erbyn dychweliad arfau niwclear yr UD i'r safle. Er ei fod yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, byddin yr UD sy'n rhedeg RAF Lakenheath. Cafodd ei seilwaith ei wella'n ddiweddar i dderbyn y bomiau niwclear B61 newydd. Digwyddodd hyn heb unrhyw ymgynghori cyhoeddus na phroses ddemocrataidd. Bwriedir cynnal protest arall yn y gwanwyn.

***Anne-Marie Le Gall***

#### **'CYHYD AG Y CYMER HI'?**

Felly beth achosodd ryfel Wcráin? NATO yn gorestyn? Imperialiaeth Rwsia gyfoes? Rhyfel dros adnoddau yn y ras am y metelau daear prin sydd eu hangen ar gyfer technolegau digidol? Amcangyfrifir bod gan Wcráin ddyddodion gwerth \$3-11.5 triliwn o'r rhain, yn y dwyrain a'r de yn bennaf. Ffynhonnell fwyaf y byd o fetelau daear prin yw China. Hoffai Rwsia fod yn ail fwyaf – a allai esbonio strategaethau geo-wleidyddol cyfredol.

Am y tro, rhaid disgwyl dyfarniad haneswyr ar hynny. Mae cyrchoedd creulon Rwsia yn erbyn sifiliaid a seilwaith yn parhau. Mae cyrff conscriptiaid Rwsiaidd ifanc, dibrofiad, yn gorwedd yn y strydoedd. Mae ymgyrch Putin wedi gwegian ac yna wedi fflamio; ymddengys fod gwrthwynebiad i'w ryfel yn tyfu yn Rwsia. Mae gaeaf llwm yn bygwth.

Ymddengys mai 'cyhyd ag y cymer hi' yw polisi UDA. Cefnogwyd hyn yn frwd gan Boris Johnson, a anogodd arweinydd Wcráin, Volodymyr Zelenskyy i beidio â cheisio heddwch, a chan Truss a Sunak hwythau. Ond dylid goleddfu 'Cyhyd ag y

cymer hi' gan 'Gofalwch am ba beth y dymunwch...'. Dwysawyd rhyfel Fietnam dros 20 mlynedd ond colli wnaeth yr UD yn y pen draw. Felly hefyd y rhyfel diweddaraf yn Afghanistan.

Ni ellir dod â rhyfel i ben heb gadw sianeli diplomyddol ar agor a dal i drafod ffyrdd posib o dynnu allan. Gobeithio y dengys uwchgynhadledd hir-ddisgwyliedig yr UD a China fwy o grebwyll. Mae angen heddwch ar Wcráin, mae angen heddwch ar Rwsia... a does dim angen risg rhyfel niwclear ar y byd ar ben ei broblemau dirfodol eraill. Yn y pen draw, cyfrifoldeb pobl gyffredin/ anghyffredin yw galw am heddwch: mae gan y cadfridogion eu hagendâu eu hunain. Nid NATO, a seiliwyd ar gadw cydbwysedd braw yn hytrach na heddwch parhaus, mo'r ateb.

*Philip Steele*

## 4 DIARFOGI RHYNGWLADOL

*Tir moesol uwch? Na! (h) Michael Leunig*



### **LLE BO EWYLLYS Y BYDD GALLU**

Gwahanol iawn o ran dulliau a chanlyniadau oedd dwy gynhadledd ryngwladol ar ddiarfogi niwclear a gynhaliwyd yn ystod haf 2022.

Cyfarfu cynhadledd adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (NPT) ym mis Awst. Dyma'r cytundeb yr honna ein llywodraeth, a'r holl wledydd ag arfau niwclear, yw'r pwysicaf ar arfau niwclear, a'r unig un a all arwain at ddiarfogi niwclear. Yr unig broblem gyda'r ddadl honno yw bod y gynhadledd unwaith eto wedi methu cytuno ar unrhyw beth – hyd yn oed yr awgrym y dylid gwneud ymosodiadau ar orsafoedd ynni niwclear yn anghyfreithlon!

Mewn cyferbyniad â'r uchod, roedd cyfarfod cyntaf y gwledydd sydd wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) yn fater llawer mwy optimistaidd, fel yr adroddodd Thomas Pitt yn y rhifyn diwethaf o *Heddwch*. Er na chymerodd yr un o'r gwledydd ag arfau niwclear ran, trafododd gwledydd lle bu profion arfau niwclear (Ynysoedd Marshall, Kazakhstan) a'r unig gyn-wladwriaeth arfau niwclear (De Affrica) iawndal i ddioddefwyr profion niwclear, adferiad amgylcheddol, ac annog mwy o wledydd i arwyddo'r cytundeb.


Ers y gwanwyn, mae naw gwlad arall – Cabo Verde, Côte d'Ivoire, Congo, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, Gweriniaeth Dominica, Grenada, Guatemala, Malawi, a Timor-Leste – wedi cadarnhau'r TPNW, gyda sawl gwlad arall (Ghana, Indonesia, Mozambique, Nepal a Niger) yn bwriadu cwblhau'r cadarnhau yn y misoedd nesaf. Mae pum gwlad arall (Barbados, Burkina Faso, Guinea Gyhydeddol, Haiti a Sierra Leone) wedi arwyddo'r cytundeb. Felly, bum mlynedd ar ôl i'r TPNW gael ei fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig, a llai na dwy flynedd ers iddo ddod i rym, mae 68 o wledydd – mwy na thraean y byd – wedi'i gadarnhau. Er bod ffordd bell i fynd, mae TPNW yn parhau i ennill dylanwad diplomyddol wrth i fwyfwy o wledydd ymuno.

**Brian Jones**

## 5 Y GYMRU DDI-NIWCLEAR YN 40

Mae arddangosfa'r Gymru Ddi-Niwclear yn parhau i ysbrydoli a hybu cefnogaeth i Gymunedau Gwaharddiad Niwclear ledled Cymru. Ym mis Hydref, pasiodd Dinas a Sir Abertawe gynnig o blaid y TPNW. M e lobio am gefnogaeth yn parhau yn Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a chymunedau eraill.

*Derbyniad da i'r arddangosfa yn y Steddfod: Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru, yn croesawu Beth Winter AS i'r Babell Heddwch*



## **ABERTAWEN CYMERADWYO'R TPNW**

Pasiwyd y cynnig hwn o 56 o bleidleisiau o blaid a dim ond 4 yn erbyn: "Noda Cyngor Abertawe bod 2022 yn 40 mlynwyddiant datgan Cymru'n 'ddi-niwclear' pan basiodd holl gynghorau sir y cyfnod, yn cynnwys Gorllewin Morgannwg, gynigion yn datgan eu bod yn 'ardaloedd di-niwclear'. Mae Cyngor Abertawe yn datgan ei gefnogaeth i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), cytundeb hanesyddol sy'n gwahardd ei lofnodwyr rhag datblygu, profi a defnyddio arfau niwclear. Mae Cyngor Abertawe'n cydnabod yr angen am greu byd di-arfau niwclear ac felly'n condemnio llywodraeth y Deyrnas Unedig am wrthod llofnodi neu gadarnhau'r cytundeb pwysig hwn. Mae Cyngor Abertawe yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio dros fydd di-niwclear drwy:

- Arwyddo a chadarnhau'r TPNW, a thrwy hynny ymuno â'r mwyafrif byd-eang o wledydd sydd yn erbyn arfau niwclear, a
- Defnyddio pob llwybr diplomyddol posibl i weithio tuag at fydd heb arfau niwclear."



*Dathlu'r TPNW gyda Jeff Baker a'r Granchas yn Abertawe!*



*Sioned Williams, Mabon ap Gwynfor, Jill Evans a Brian Jones yng Nghaerdydd*

## **A BAE CAERDYDD...**

Bu dangosiad olaf yr arddangosfa yn 2022 yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, ar 6 Rhagfyr, ar gyfer digwyddiad a noddiwyd gan Mike Hedges AoS ac a drefnwyd gan CND Cymru mewn partneriaeth â'r NFLA (Cymd. yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear). Roedd siaradwyr yn cynnwys Jill Evans (Cadeirydd CND Cymru), Dr Rebecca Johnson (IsGadeirydd CND Prydain/Grŵp Llywio ICAN), Mick Antoniw AoS, Jane Dodds AoS, Mabon ap Gwynfor AoS. Canodd Côr Cochion Caerdydd Caneuon Heddwch. Anerchwyd yr ail sesiwn gan y Cyngh. Sue Lent (Cadeirydd Fforwm Cymru'r NFLA/ Cyngor Caerdydd), Dr Bethan Siân Jones (Ysgrifennydd Cenedlaethol, CND Cymru) a Richard Outram (NFLA).

*Mary Jones*

**Heddweithredu >>>** Os na chawsoch gyfle eto i gynnal digwyddiad i alw am 'Gymru Ddi-niwclear' a hyrwyddo TPNW, da chi, cysylltwch â ni gan fod y deunydd yn dal yn berthnasol iawn ac ar gael ar gyfer digwyddiadau yn 2023.

## **6-7 NEWYDDION UNDEBAU LLAFUR**



*Ilun: Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT)*

## **O ARFAU I'R ADNEWYDDADWY**

Swyddi neu fomiau? Mae llywodraethau'r DU a Chymru yn dal i fuddsoddi symiau enfawr mewn swyddi 'amddiffyn' yng Nghymru. Dylid rhoi'r flaenoriaeth i ailhyfforddi gweithwyr mewn sgiliau ynni adnewyddadwy. Yng Nghyngres TUC 2022, bu brwydr dros gynnig i gynyddu gwariant amddiffyn.

Yng Nghyngres Undebau Llafur 2022 ym mis Hydref, gwnaeth undeb y GMB cynnig, a gariwyd o drwch blewyn, i gefnogi gwariant amddiffyn yn y DU. Roedd y cynnig hefyd yn gofyn am sicrhau bod 30 mlynedd o waith amddiffyn ar y gweill ar draws gwahanol sectorau, yn cynnwys darparu'r rhaglenni Astute a Dreadnought yn llawn. Roedd y cynnig hwn o dan bennawd cyffredinol Adfer Economaidd a Swyddi Gweithgynhyrchu.

Er syndod i lawer, cefnogodd y Cyngor Cyffredinol y cynnig, gan ddefnyddio'r rhyfel yn Wcráin fel y rheswm dros angen am ddychwelyd at sylfaen weithgynhyrchu gref yn y DU, tra hefyd yn nodi bod y frwydr dros heddwch a'r frwydr dros gyfiawnder cymdeithasol yn anwahanadwy ac y byddai'r mudiad Undebau Llafur yn parhau i frwydro dros economi sy'n rhoi'r egwyddor hon yn gyntaf – ond ddim eto, mae'n amlwg. Trwy gefnogi'r cynnig, roedd y Cyngor Cyffredinol, law yn llaw â'r GMB, yn arwain y gwrthwynebiad i'r gefnogaeth a roddwyd i ddargyfeirio o amddiffyn i feysydd eraill gan bleidlais y TUC bum mlynedd ynghynt.

Wrth gefnogi'r cynnig ar ran y GMB, dechreuodd Nigel Warn drwy ddiolch i Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC am wneud ei araith ar ei ran. Dywedodd, gan fod swyddi yn y fantol, ei fod yn bygwth diogelwch y DU, a bod rhaid i weithgynhyrchu arfau fod wrth wraidd amddiffyn y sector gweithgynhyrchu ehangach. Honnodd nad oedd y cynnig blaenorol i arallgyfeirio oddi wrth amddiffyn "yn addas ar gyfer y byd rydym yn byw ynddo bellach." Buom yn dyst i'r olygfa gywilyddus o gynrychiolydd undeb llafur yn gosod pwysigrwydd swyddi undebol yn erbyn bywydau pobl ddiniwed a diogelwch byd yn gyffredinol. Codwyd y thema hon yn rymus gan lawer o siaradwyr y ddadl.

Nododd Jon Reddiford o'r NEU (Undeb Addysg Cenedlaethol) y llu o gamau llwyddiannus a gymerwyd mewn diwydiannau gweithgynhyrchu tuag at drawsnewid cyfiawn oddi wrth amddiffyn. Roedd y rhain yn cynnwys Babcock (tuag at atgyweirio morol) a Lucas Aerospace. Dywedodd mai trawsnewid cyfiawn yw'r hyn y dylem frwydro amdano, "nid buddsoddi mewn arfau llofruddiol, dibwynt, anghynhyrchiol". Tynnodd sylw at ran llywodraeth y DU mewn gwerthu arfau i wledydd a restrwyd gan y Swyddfa Dramor fel tramgwyddwyr hawliau dynol.

Ategwyd y pwynt hwn gan Rob Witherspoon o'r CWU (Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu), a'n hatgoffodd mai prynwr mwyaf arfau a wnaed yn y DU yw Saudi Arabia. Dywedodd yn deimladwy, "Pan fo'r diwydiant arfau yn arbrofi â chynnyrch newydd, mae'n golygu plant heb famau a thadau, mamau a thadau heb blant." Dywedodd na ddylai'r TUC fod yn cefnogi cynnydd mewn gwariant ar arfau pan fo'r byd yn yn nes at Armagedon niwclear nag ar unrhyw adeg er y 1960au.





*Galwodd cynrychiolwyr undebau NEU a CWU i'r TUC am derfyn ar y fasnach arfau gyda Saudi Arabia. Ym mis Rhagfyr ymunodd cefnogwyr CND Cymru o Ogledd Cymru â phrotest gan yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau yn RAF Fali lle bu peilotiaid Saudi yn hyfforddi at y rhyfel yn Yemen. llun: Sioned Huws*

Dywedodd Martin Cavanagh o PCS (Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol) fod mudiad yr undebau llafur yn rhan ollbwysig o'r mudiad heddwch ac, yn ystod rhyfel, mai'r dosbarth gweithiol sy'n dioddef fwyaf. Mewn araith bwerus nododd mai dim ond China a'r UD sy'n gwario mwy ar amddiffyn na'r DU a dywedodd, "Rydym yn deall yr angen am swyddi ond hefyd yn deall na allwn ychwaith ymddihatu o'n cyfrifoldeb dros y gymdeithas ehangach." Nododd Fliss Premru o TSSA (Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth) bod cynyddu gwariant ar arfau yn gwneud ymrwymiad y Gyngres i leihau ôl troed carbon Prydain yn destun gwawd.

Paratodd Grŵp Cynghori Undebau Llafur CND (TUAG) daflen yn gwrthwynebu'r cynnig a'i dosbarthu yn y gynhadledd. Adlewyrchai lawer o'r pwyntiau a wnaed gan siaradwyr, sef bod arian ar gyfer arfau yn golygu llai ar gyfer gofal iechyd, cartrefi, addysg, trafndiaeth gyhoeddus ac ynni adnewyddadwy, a mwy o arian i gwmnïau arfau, nid cyflogau gwell ar draws ein holl sectorau diwydiannol.

Cyflwynodd TUAG i Gyngor CND Prydain gynnig a basiwyd o blaid gwrthdroi penderfyniadau undebau llafur diwydiannol yn cefnogi ynni niwclear, a gweithio gyda chynrychiolwyr undebau ar lefel leol a chanolog i sicrhau hyn. Anogwn hefyd ganghennau rhanbarthol a chenedlaethol i ymuno ag CND ac adeiladu gweithredu

uniongyrchol yn erbyn arfau a phŵer niwclear ochr yn ochr ag ymgyrchwyr hinsawdd.

Roedd y ddadl a gynhaliwyd yn y TUC yn adlewyrchu'r angen mawr am i'n mudiadau gydweithio i ganolbwyntio ar heddwch y byd, a danlinellir gan y bygythiadau presennol o ddefnyddio arfau niwclear yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Mae CND Cymru yn gofyn am eich cefnogaeth yn y mudiad hwn.

*Linda Rogers*

## 8 NEWYDDION NIWCLEAR



*Protest Wylfa mis Medi 2022 Ilun: Abby Poulson*

### **DEFFRO I'R PERYGL YNG NGHAERNARFON**

Daeth aelodau o CADNO, Cynghair Wrth-Niwclear Cymru, Cymdeithas yr Iaith, CND Cymru, PAWB a'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear ynghyd yng Nghaernarfon ar Orffennaf 23 i gynhadledd hybrid.

Cafwyd cyfraniadau amrywiol: 'Pam nad oes angen ynni niwclear ar Gymru' gan Richard Outram, Ysgrifennydd yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear; 'Datblygiadau gwleidyddol yn San Steffan' gan Neil Crumpton, PAWB; 'Dadansoddiad o gyllid a Reoleiddir ar Sail Asedau ar gyfer adweithyddion niwclear newydd' gan Linda Rogers, PAWB; 'Llygru niwclear mewndirol gan ronynnau morol a gludir ar y gwynt' gan Tim Deere-Jones; Dr Stephen Thomas yn rhoi darlun cryno o adweithyddion modiwlaidd posibl; Mabon ap Gwynfor AS yn amlinellu ei wrthwynebiad i unrhyw ddatblygiad niwclear newydd yng Nghymru; Linda Gunter o Beyond Nuclear yn America ar helyntion cwmni Westinghouse yno ac anaddasrwydd ynni niwclear unrhyw le yn y byd. Daeth y gynhadledd i ben gyda Bethan Siân a Sam Bannon yn cyhoeddi taith gerdded CND Cymru o Drawsfnwydd i'r Wylfa rhwng Medi 3 a 9 (*gweler y dudalen nesaf*).

Rhwng y gynhadledd a'r daith gerdded, mae gwleidyddion gogledd-orllewin Cymru ar lefel San Steffan, Senedd Cymru a'r Cyngorau Sir wedi cael eu lobio'n drwm. Mae nifer o gynghorwyr newydd ac ambell un mwy profiadol ar Gynghorau Môn a Gwynedd wedi datgan eu safiad yn erbyn ynni niwclear ac rydym mewn sefyllfa wleidyddol tipyn cryfach oherwydd y gefnogaeth newydd hon. Calonogol iawn oedd clywed am arweiniad cryf y Cynghorwyr Delyth Griffiths a Linda Jones mewn cyfarfod o Fforwm Meirionnydd Cyngor Gwynedd pan gafodd Alan Raymant, gynt o Horizon/Wylfa, prif weithredwr Cwmni Eginio sy'n ceisio denu buddsoddiad niwclear newydd i Drawsfynydd, gyfle i'w hannerch.

Parhaodd ymgyrchu PAWB ganol Hydref wrth i Linda Rogers a Neil Crumpton ymuno â Dr Doug Parr, Prif Wyddonydd a Chyfarwyddwr Polisi Greenpeace, ein cynrychiolwyr i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan gan ateb cwestiynau amrywiol gan aelodau seneddol o'r Blaid Geidwadol, y Blaid Lafur a Phlaid Cymru.

Bydd rhaid i ni wyllo Rolls Ryce yn ofalus gan eu bod wedi blaenoriaethu pedwar safle ar gyfer eu hadweithydd modiwlaid MAWR, sef Oldbury, Sellafield, Trawsfynydd a'r Wylfa. Bydd rhaid i ni gryfhau'r ymgyrchu yn erbyn y fath ffolineb peryglus a gwastraffus.

*Dylan Morgan*

## 9 TRAWS-WYLFA MARCH



## YMDAITH O NIWC I NIWC YN ERBYN SMRS

Rhwng 4 a 10 Medi, cerddodd aelodau ifanc o CND Cymru o Atomfa Trawsfynydd i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa mewn protest yn erbyn cynigion llywodraeth San Steffan i'w hailgomisiynu gydag Adweithyddion Niwclear Modiwlwr Bach.

Ymunodd gweithredwyr o bob oed â'r garfan ieuenctid, gan greu grŵp craidd o ddeuddeg a gerddodd yr holl bellter. Cefnogwyd y cerddwyr gan aelodau ymroddedig iawn o PAWB a CADNO a ffurfiodd eu hunain yn ddau weithgor – Brigâd y Brechdanau, a fu'n garedig iawn yn darparu prydau i'r cerddwyr bob dydd, a'r Tîm Trafnidiaeth a oedd yn gyfrifol am gludo sachau cysgu ac eiddo o'r naill le i'r llall, yn ogystal â chwrdd â'r cerddwyr ar y ffordd.

Denodd y raliâu a gynhaliwyd y naill ben a'r llall i'r daith, yn y gorsafoedd niwclear, dorfeydd o gant o bobl. Bob dydd, roedd yr ymdaith yn amrywio o ran maint gyda phobl leol yn ymuno ar wahanol adegau. Ar rai dyddiau roedd 35 o bobl yn cerdded, gydag 20 ar rai eraill. Byddai'r cerddwyr yn cysgu ar lorïau neuaddau cymuned a phentref gan gynnal nosweithiau cymdeithasol gyda'r nos, yn cynnwys trafodaethau, perfformiadau ac adloniant cerddorol. Ar y ffordd, cyflwynwyd copïau wedi'u harwyddo o Ddatganiad Caernarfon, sy'n galw am Gymru ddi-niwclear, gan y gorymdeithwyr i Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yr Athro Oliver Turnbull.

Dangosodd yr orymdaith nid yn unig gryfder gweithredu yng Nghymru, ond hefyd ei gyfoeth. Daeth pobl, cymunedau a mudiadau at ei gilydd i weld yr ymgyrch yn llwyddo. Derbyniodd yr orymdaith hefyd negeseuon o gefnogaeth a chymeradwyaeth gan yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear (NFLA), Cymdeithas yr Iaith, Cymdeithas y Cymod, XR Cymru, Cynulliad y Werin Cymru, Radiation Free Lakeland, Youth Fusion a Mabon ap Gwynfor AoS. Credai dau uwch aelod o staff yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) fod ymdrech y cerddwyr yn orchestrol!

*Bethan Siân*



## 10-13 NEWYDDION CYMRU: YMA, ACW AC YMHOBMAN



*Daeth Cabinet San Steffan XR a rhyw Mr Murdoch i'r Steddfod gyda neges i gynhesu'r galon: Pres Nid Lles! Llyn: Bim Mason*

### TREGARON – O'R DIWEDD!

Meddai Brian Jones: Bu stonddin CND Cymru, gydag arddangosfa “Y Gymru Ddi-Niwclear yn 40” yn llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion (ar ôl dwy flynedd heb Eisteddfod oherwydd Covid-19). Yr uchafbwynt yn ddi-os oedd digwyddiad Diwrnod Hiroshima, gydag Is-lywydd CND Prydain, Jeremy Corbyn AS. Gellir darllen araith Jeremy, a draddodwyd yn Gymraeg gan Meic Birtwhistle, ar wefan [www.cndcymru.org](http://www.cndcymru.org) Diolch yn fawr i bawb a fu'n helpu ar y stonddin.



*Y Babel Heddwch yn Eisteddfod 2022 Iluniau: Brian a Jan Jones*

**Heddweithredu >>>** Y flwyddyn nesaf, bydd Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 ym Moduan, ger Pwllheli – os gellwch helpu, ebostiwch [heddwch@cndcymru.org](mailto:heddwch@cndcymru.org)

### **CND CYMRU YN ABERYSTWYTH**

Cyfarfu Cyngor CND Cymru yng nghanolfan Theatr Arad Goch yn Aberystwyth ar 19 Tachwedd, y cyfarfod wyneb-yn-wyneb cyntaf ers cyfnodau clo Covid. Ymunodd aelodau â ni ar-lein hefyd. Braf oedd cyfarfod eto yn y cnawd, ac fe groesawyd rhai wynebau newydd. Ffocws sesiwn fywiog y prynhawn oedd cyfeiriad ein gweithredu yn y dyfodol, a sut i adeiladu ar sail llwyddiant y daith gerdded o Drawsffynydd i'r Wylfa. Awgrymwyd nifer o syniadau da, y bydd angen eu datblygu ymhellach yn 2023.

### **LLEDAENU'R NEGES**

Yn ôl ein Trysorydd Michael Freeman, cafodd mwy na 700 o gopiâu o *Heddwch* rhif 81 eu hanfon at aelodau CND Cymru ac aelodau CND Prydain sy'n byw yng Nghymru, gyda 100 arall yn dewis ei dderbyn yn electronig. Gellir, wrth gwrs, ei weld am ddim ar ein gwefan yn Gymraeg neu Saesneg <https://www.cndcymru.org/>

Mae aelodaeth CND Cymru yn rhad ac am ddim i rai dan 25 bellach, felly ymunwch, da chi, ac annog eraill i wneud hynny, er mwyn helpu a chyfranogi.

Diolch yn fawr i Jill Gough am ei gwaith gwych ar y cyfryngau cymdeithasol, gydag 3,000 o geisiadau'r wythnos ar dudalen Facebook CND Cymru ym mis Tachwedd.

### **CROESO I'R TÎM**

Pleser yw croesawu dau aelod newydd i dîm CND Cymru.

Dylan Lewis-Rowlands fydd yn ymdrin â'r Wasg. O Gwm Cynon yn wreiddiol, mae Dylan bellach yn byw yn Aberystwyth, lle y bu'n astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Mae'n aelod o gyngor tref Aberystwyth dros Lafur Cymru, ac yn gyd-gadeirydd Llafur dros Annibyniaeth. Mae'n weithredydd undeb llafur gydag Uno'r Undeb. Etholwyd Dylan hefyd yn gynrychiolydd CND Cymru i CND Prydain.

Ymunodd Elizabeth Nakielny â ni fel Lobïydd. Fe'i magwyd yn Nhalylychau, Sir Gaerfyrddin, ar y fferm deuluol lle mae hi bellach yn byw. Gweithiodd i Meddygon dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol, a bu'n lobïo yn ymgyrch y Meiri dros Heddwch. Yn 2019, symudodd i Genefa i ddilyn gradd meistr mewn Materion Rhyngwladol, gan arbenigo mewn Diogelwch Byd-eang. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n gweithio gydag ICAN, gan wneud ymchwil i effeithiau arfau niwclear ar y ddynolryw. Cwblhaodd broject Capstone hefyd gyda Sefydliad y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ymchwil i Ddiarfogi (UNIDIR). Mae Elizabeth yn edrych ymlaen at fwrw ymlaen â gwrthwynebiad CND Cymru i ynni niwclear ac arfau niwclear. Mae wedi sefydlu grŵp WhatsApp ar gyfer lobïo (*gweler t.16 am fanylion cyswllt*)

### **ADFER RHODD HEDDWCH JAPAN**

Mary Winter: "Diolch yn fawr i CND Cymru am sefydlu'r arddangosfa hon [Y Gymru Ddi-Niwclear yn 40] a gadael i ni ei chael yng Nghwm Cynon. Ry'n ni wedi mwynhau ei

chynnal yn fawr iawn – ac oherwydd ei dyfodiad yma, cafodd ein Polyn Heddwch, a gyflwynwyd i Gwm Cynon gan bobl Japan nôl yn yr 1980au, ei adfer i'w hen ogoniant. Mae'r Adran Barciau wedi bod yn brysur ac wedi dadorchuddio'r plinth gwreiddiol â'r geiriau Cymraeg yn galw am i heddwch deyrnasu ar y Ddaear, a bydd rhosod heddwch yn cael eu plannu i flodeuo yno eto. Felly rydym ar ben ein digon.” \

## **Y PABI GWYN**

Mae ystyr y pabi gwyn yn cael ei ddeall yn well a'i gofleidio gan y cyhoedd o flwyddyn i flwyddyn. Adroddodd Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn y bu ymateb da i'w stondin ger Cloc Bangor ar 4 Tachwedd, ac roedd Côr Gobaith ymhlith y rhai a osododd dorchau pabi gwyn ar Sul y Cofio yn Aberystwyth.

## **GWEITHREDU AR YR HINSAWDD**

Mae'r argyfwng hinsawdd yn symbylu rhyfela dros dir ac adnoddau, ac mae rhyfeloedd yn eu tro yn cyfrannu at argyfwng yr hinsawdd, a'i waethygu.

Bu protestiadau hinsawdd yn ystod wythnos Steddfod 2022 (gwel. tt.10-11). Cynhaliwyd protestiadau mawr yn galw am gyfiawnder hinsawdd hefyd i gyd-daro â COP 27. Siaradodd Bethan Siân ar ran CND Cymru yn rali Caerdydd. Cafwyd 'angladd yr addewidion' ar y Maes yng Nghaernarfon, gyda siaradwyr o Gweithredu ar Hinsawdd Cymru, Cymdeithas Gogledd Cymru Affrica a Gwyrdd Ni. Ar Dachwedd 13, roedd hi'n 21.2°C ym Mhorthmadog, record ddigynsail am yr hydref ...

Cofir COP 27 am addewidion nas cyflawnwyd, am lobïo o blaid tanwydd ffosil a niwclear, a gwyrddolchi digywilydd. (Ac, wrth gwrs, am record hawliau dynol echrydus yr Aifft.) Cafwyd camau pwysig tuag at gronfa 'Colled a Difrod', ond dim gweithredu brys i gwtogi ar allyriadau. Yn yr Aifft, parhau i gadw'u pennau yn y tywod a wnaeth yr estrysod.



*Cefnogwyr CND Cymru yn rali'r hinsawdd yng Nghaerdydd yn ystod COP 27 llun: CND Cymru*

## **MALA HEDDWCH**

Noda Pam Evans bod yr elusen hon o Dreforys ar yr 20 o Fedi wedi dathlu 20 mlynedd o'i gwaith yn hyrwyddo cyfeillgarwch, parch a heddwch rhwng pobl o bob diwylliant, ffordd o fyw, ffydd a chred. Cynhaliwyd Litwrgi Rhyng-ffydd dros Heddwch y Byd yn Eglwys Golegol y Santes Fair yn Abertawe. Cafwyd cerddoriaeth a dawns gan Sarita Sood, Grŵp Dawns Vasda Punjab, Lee Michael Walton a Steve Balsamo, a cherddorion Celtaidd y Tad Tim Ardouin.



*Mala Heddwch: disgyblion ysgol lleol yn cynnau canhwyllau  
llun: Matthew Eynon*

## **NEVER AGAIN!**


Cafodd coffâd blynyddol y defnydd cyntaf o fomiau atomig ym 1945 ei nodi yn yr Eisteddfod Genedlaethol a hefyd gan grwpiau heddwch yng Nghymru. Cyfarfu Liz Screen a'i ffrindiau yn Aberteifi ar 9 Awst, i goffáu ymosodiad yr UD ar Nagasaki, a laddodd rhwng 50,000 a 100,000 o bobl.

## **HYWEL WILLIAMS AS**

Cyhoeddodd Hywel Williams y byddai'n sefyll i lawr o fod yn AS Plaid Cymru dros Arfon yn yr etholiad nesaf, ar ôl 19 mlynedd, newyddion sy'n destun gofid. Mae Hywel yn un o rywogaeth brin iawn y dyddiau yma, gwleidydd o egwyddor sy'n barod i weithio'n galed dros ei etholwyr a thros gyfiawnder cymdeithasol. Roedd yn wrthwynebydd di-flewyn-ar-dafod i ryfeloedd Blair yn Afghanistan ac Irac ac i ormes y Palestinaid. Byddai'n cynnig ei gefnogaeth mewn protestiadau a gwyliau heddwch cyn i ni hyd yn oed ei wahodd. A phe baech yn ceisio cefnogaeth i Gynnig EDM gwerthchweil yn San Steffan, gallech fentro bod Hywel eisoes wedi'i lofnodi – neu wedi'i gynnig yn y lle cyntaf! Diolch o galon, Hywel, am dy waith glew.



## 14-15 ADOLYGIADAU LLYFRAU, YSGRIF GOFFA




Deep Deception: The story of the Spycop Network, by the Women who Uncovered the Shocking Truth  
Helen Steel, Alison, Lisa, Naomi, Belinda  
Ebury Press 2022 400 tt  
ISBN: 9781529108316 Clawr caled £20

Bydd y rhan fwyaf yn CND a llu o grwpiau eraill a ystyrir yn 'danseiliol' gan y wladwriaeth wedi clywed neu ddarllen am achosion echrydus swyddogion heddlu cudd a ymdreiddiodd i mewn i grwpiau yn yr 80au a'r 90au. Ceisiodd yr heddlu, wedi i hyn gael ei ddatgelu, ymesgusodi trwy fynnu mai gwaith un neu ddau o swyddogion drwg ydoedd. Mae'r llyfr hwn yn rhoi pennod ac adnod i brofi mai anwiredd llwyr yw hyn a pha mor ddyfnwreiddiedig oedd yr arfer.

Roedd Helen Steel, un o'r ddau ddiffynnydd yn achos enllib McDonalds, yn un o'r gwragedd niferus a gafodd eu twyllo i mewn i berthynas hirdymor gyda heddwes cudd a blannwyd yng ngrŵp London Greenpeace. Pan sylweddolodd sut yr oedd wedi cael ei thwylo, ac yna cwrdd ag eraill a oedd hefyd wedi cael eu camddefnyddio, penderfynodd ddweud ei stori. Llwyddodd i ddarbwylo pedair o'r menywod eraill i ymuno â hi, o dan ffugenwau. Y llyfr hwn yw eu hanes nhw.

Heb os, fe geir llyfrau academiaidd ar y pwnc hwn, ond ni fydd gan yr un ohonynt uniongyrchedd y llyfr hwn, a sgrifennwyd yn eu geiriau eu hunain. Agorodd darllen y llyfr hwn fy llygaid i'r dyfnderoedd mae'r heddlu'n barod i suddo iddynt. Gallaf ei argymhell o'r galon fel cyfrol dda i'w darllen a ffynhonnell wybodaeth i bawb mewn unrhyw fudiad protest.

*Jan Jones*



Brittle with Relics:

A History of Wales 1962-97

Richard King

Faber & Faber 2022 627pp

ISBN 978-0571295647 Hdbk £25

Daw'r teitl sobreiddiol braidd o'r gerdd *Welsh Landscape* by RS Thomas – '*There is no present in Wales, And no future; There is only the Past, Brittle with relics.*' Fodd bynnag, mae'r llyfr hwn yn dangos sut y bu i bobl Cymru ymdrin â'r creiriau hynny o'r 1960au hyd at setliad datganoli 1997. Mae'n stori sy'n ysbrydoli, yn cyd-fynd yn well â naratif Gwyn Alf Williams o Gymru ddeinamig sy'n ailddyfeisio ei hun beunydd. Nid yw'r hanes ynddo'i hun yn sych o gwbl, gan ei fod yn gasgliad o adroddiadau gair-am-air gan y rhai oedd yng nghanol y frwydr.

Mae lleisiau King yn trafod eu barn ar brif ddiwyddiadau a mudiadau'r dydd. Caiff Menywod dros Fywyd ar y Ddaear a thaith Comin Greenham bennod haeddiannol o gyfraniadau gan Rosemary Butler, Menna Elfyn, Meri Huws, Siân James, Sue Lent, Mary Millington, Ann Pettit, Karmen Thomas ac Angharad Tomos.

Roedd y blynyddoedd dan sylw yn aml yn daith anwastad. Gwnaed cynnydd yn y cyfnod rhwng 1997 a heddiw. Erys y problemau gwleidyddol yn ddigalon o gyfarwydd, ond mae cydlynid cynyddol yn hunan-farn Cymru flaengar yn argoeli'n dda. Os oes dilyniant i fod, edrychaf ymlaen ato.

**Philip Steele**



## Ian Campbell

1936 - 2022

Wrth i ni gerdded i mewn i angladd Ian yn Arberth, Sir Benfro, y cyfeiliant priodol oedd "You Don't Get Me, I'm Part of the Union" gan y Strawbs Roedd Ian bob amser yn rhan o'r frwydr dros gyfiawnder cymdeithasol, diarfogi niwclear a heddwch .

Magwyd Ian ym Mhenfro. Yn dilyn Gwasanaeth Gwladol yn y Llynges, aeth i'r brifysgol, daeth yn athro, a chafodd Thalia ac yntau bedwar o blant a symudodd y teulu i Gymru o Loegr. Dechreuwyd gwneud baneri, a gymysgai gelf a gwleidyddiaeth, yn gyntaf ar gyfer Plaid Lafur Aberystwyth, ac un arall i ddathlu'r dyhead am Gymru Ddi-Niwclear, baner hardd sy'n dal i gael ei defnyddio yn ein hymgyrchoedd.

Daeth y cannoedd o faneri proffesiynol a chymunedol a wnaeth Ian a Thalia gyda'i gilydd, a gyda chynorthwywyr eraill tra'n byw yn Ynyslas, Ceredigion dros 30 mlynedd yn enwog mewn gwrthdystiadau a digwyddiadau gwleidyddol cenedlaethol a rhyngwladol, cynadleddau, arddangosfeydd, Streic y Glowyr a Gwersyll Comin Greenham.

Yn aelod oes o'r Blaid Lafur ac yn undebwr llafur, safodd Ian mewn etholiad i San Steffan yng Nghlwyd (1983), ac etholiad Ewropeaidd (1984). Yn un o sylfaenwyr Arts for Labour, roedd yn rhan o glymblaid amgylcheddol Aberystwyth, yn ymgyrchydd heddwch gwrth-niwclear, yn aelod o'r NUT ac yn ysgrifennydd cangen y TGWU.

Roedd Ian yn gynnes, yn angerddol, yn heriol, ac yn effeithiol, yn ymladdwr dros heddwch a chyfiawnder cymdeithasol, a hawliau dynol a sifil. Mawr yw'r golled ar ei ôl.

*Jill Gough*

## CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.

gwefan: [www.cndcymru.org](http://www.cndcymru.org)

e-bost [heddwch@cndcymru.org](mailto:heddwch@cndcymru.org)

trydar: @cndcymru instagram: @cndcymru

gwpeplyfr: <https://www.facebook.com/cndcymru/>

### YMUNWCH Â NI NAWR

<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth/>

*O dan 25? Gellwch ymuno am ddim!*

## CYSYLLTIADAU:

**Cadeirydd: Jill Evans** [Y Rhondda]

[cadeirydd@cndcymru.org](mailto:cadeirydd@cndcymru.org) 07803 902 401

**Ysgrifenydd Cenedlaethol:**

**Bethan Siân** [Aberystwyth]

[bsj11@outlook.com](mailto:bsj11@outlook.com) 07933 791 207

**Trysorydd ac Aelodaeth:**

**Michael Freeman**

[trysorydd@cndcymru.org](mailto:trysorydd@cndcymru.org)

[aelodaeth@cndcymru.org](mailto:aelodaeth@cndcymru.org)

9 Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr,

Aberystwyth SY23 3SE

**Cyfringau Cymdeithasol: Jill Gough** [Llandysul]

<https://www.facebook.com/cndcymru/>

**Y Wasg: Dylan Lewis-Rowlands** [Aberystwyth]

[gwasg@cndcymru.com](mailto:gwasg@cndcymru.com)

**Lobio: Elizabeth Nakielny** [Sir Gaerfyrddin]

[elizabeth.nakielny@graduateinstitute.ch](mailto:elizabeth.nakielny@graduateinstitute.ch)

**John Cox** [Abersychan]

[drjohncox121@gmail.com](mailto:drjohncox121@gmail.com) 01495 773495

**Brian Jones** [Pontardawe]  
[brian.jones@phoncoop.coop](mailto:brian.jones@phoncoop.coop) 01792 830330

.....  
**Duncan Rees** [Wrecsam]  
[Duncan.rees01@gmail.com](mailto:Duncan.rees01@gmail.com) 07534 975 461

.....  
**Cynrychiolwyr I Gyngor CND y DU**  
**Linda Rogers** [Ynys Môn]  
**Bethan Siân** [Aberystwyth]  
**Dylan Lewis-Rowlands** [Aberystwyth]



## **HEDDWCH**

yw cylchgrawn  
**Ymgyrch Cymru dros**  
**Ddiarfogi Niwclear**  
[CND Cymru]

**Golygydd: Philip Steele**  
[golygydd@cndcymru.org](mailto:golygydd@cndcymru.org)

**Cyfieithydd: Siân Edwards**  
[siandefynnog@hotmail.co.uk](mailto:siandefynnog@hotmail.co.uk)

**Cynhyrchu a phostio: Redkite Print**  
[jonplumpton1@gmail.com](mailto:jonplumpton1@gmail.com)

Nid yw cynnwys *Heddwch* o  
angenrhaid yn adlewyrchu barn  
neu bolisiâu CND Cymru. Rydym  
yn croesawu dadl a thrafodaeth.  
Da chi, anfonwch unrhyw sylw,  
cyfraniad neu ddyddiadau  
digwyddiadau at y golygydd.

**Bydd rhifyn nesaf HEDDWCH yn  
ymddangos ym mis Mai 2023.**



*Aberystwyth*



*Trawsfynydd*